OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 399 (Cy.56)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	-	-	*26 Chwefror 2003*
Yn dod i rym	-	-	*28 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 8(1), 17(1), 23, 83(2), 87(2) a (5) ac 88(2) a (4) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003, daw i rym ar 28 Chwefror 2003 ac mae'n gymwys i Gymru.

Estyn y diffiniad o "*animals*" a "*disease*"

2. At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 o'i chymhwyso at y Gorchymyn hwn —

(a) mae'r diffiniad o "*animals*" yn adran 87(1) o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys unrhyw fath o famal ac eithrio dyn ac unrhyw fath o fwystfil pedairtroed nad yw'n famal; a

(b) mae'r diffiniad o "*disease*" yn adran 88(1) o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys unrhyw glefyd anifeiliaid.

Dehongli a chymhwyso

3.—(1) Yn y Gorchymyn hwn —

mae "safle" ("*premises*") yn cynnwys tir ag adeiladau neu dir hebddynt; ac

(**1**) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999, O.S. 1999/3141. Cafodd pob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu trosglwyddo ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

mae i "prif ffordd" yr un ystyr â "*primary route*" yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 1994(**2**).

(2) Pan ellid arfer pŵer a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn o dan ddarpariaethau unrhyw Orchymyn arall, caniateir i'r pŵer o dan y Gorchymyn hwn gael ei arfer yn ychwanegol at y pŵer yn y Gorchymyn arall, neu yn ei le.

Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid mewn achosion clefyd neu glefyd a amheuir

4.—(1) Os bydd arolygydd milfeddygol yn amau bod clefyd yn bodoli ar unrhyw safle neu gyfrwng cludo, caniateir iddo gyflwyno i'r person y mae'r safle neu'r cyfrwng cludo o dan ei ofal hysbysiad yn gwahardd symud unrhyw anifail, carcas neu unrhyw beth arall i'r safle neu'r cyfrwng cludo hwnnw neu oddi arno, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol.

(2) Caiff hysbysiad a ddyroddir o dan baragraff (1) gynnwys unrhyw gyfyngiadau neu ofynion eraill mewn perthynas â'r safle neu'r cyfrwng cludo neu mewn perthynas â phersonau, anifeiliaid, carcasau neu bethau eraill ar y safle neu'r cyfrwng cludo y mae'r arolygydd milfeddygol yn barnu eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal clefyd rhag ymledu.

(3) Os bydd unrhyw berson yn mynd yn groes i hysbysiad a ddyroddir o dan yr erthygl hon i'r graddau y mae'n gymwys i anifail, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd i awdurdod lleol, gipio neu gadw'r anifail hwnnw a chaiff ei waredu yn y modd y mae'n barnu ei fod yn angenrheidiol i atal y clefyd rhag ymledu.

(4) Bydd unrhyw dreuliau a dynnir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r arolygydd wrth arfer y pwerau o dan baragraff (3) yn adferadwy fel dyled sifil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r awdurdod lleol oddi wrth y person sy'n methu â chydymffurfio.

Datgan ardal heintiedig

5.—(1) Os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn amau bod clefyd yn bodoli mewn unrhyw ardal, caiff wneud Gorchymyn yn datgan bod yr ardal honno yn ardal heintiedig y mae darpariaethau erthygl 6 yn gymwys iddi.

(2) Rhaid i Orchymyn o dan baragraff (1) bennu —

(a) y clefyd y mae'r ardal heintiedig yn cael ei datgan mewn perthynas ag ef; a

(b) rhywogaethau yr anifeiliaid y mae darpariaethau erthygl 6 i fod yn gymwys iddynt.

(3) Bernir bod unrhyw safle y mae rhan ohono y tu mewn a rhan ohono y tu allan i'r ardal heintiedig yn gyfan gwbl y tu mewn i'r ardal honno.

Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid o fewn ardal heintiedig ac allan ohoni

6.—(1) Mae symud anifail, y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, gan unrhyw berson allan o ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig o dan y Gorchymyn hwn yn cael ei wahardd, ac eithrio —

(a) o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol; neu

(b) os yw'r anifail yn teithio drwy'r ardal ar drên neu mewn cerbyd ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael gan ddefnyddio traffyrdd neu brif ffyrdd a hynny heb gael ei ddadlwytho.

(2) Mae symud anifail, y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, gan unrhyw berson oddi ar unrhyw safle mewn ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig o dan y Gorchymyn hwn yn cael ei wahardd,

(**2**) O.S. 1994/1519.